



CYNGOR BRO MORGANNWG
ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

CRYNODEB CYHORDDUS

Cymunedau
Cryf â
Dyfodol
Disglair

Medi 2018

Beth yw'r Adroddiad Blynyddol?

Mae'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (LGM) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFBG) yn rhoi dyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas â dyletswyddau gosod amcanion ac adrodd. O dan y Ddeddf WFBG, mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Llesiant blynyddol erbyn 31 Mawrth a'u hadolygu yn flynyddol i sicrhau eu bod yn aros yn berthnasol. O dan yr LGM, mae hefyd yn ofynnol i ni gyhoeddi dwy ddogfen bob blwyddyn: y cyntaf yw Cynllun Gwella sy'n edrych ymlaen ac yn gosod ein blaenoriaethau gwella (a adwaenir yn Amcanion Gwella) ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod; a'r ail yw **Adroddiad Blynyddol** sy'n myfrio ar berfformiad y Cynllun Gwella. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn edrych yn ôl ar sut wnaethom ar gyflawni ein blaenoriaethau gwella (Amcanion Gwelliant) fel y'u rhestrir yng Nghynllun Gwella Bro Morgannwg Rhan 1 ar gyfer 2017/18.

Sut wnaethon ni yn erbyn ein Hamcanion Llesiant (Gwella)?

Ein Statws RAG Cyffredinol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017/18 yw AMBR




Cafodd 3 o'n 4 o Ganlyniadau Llesiant y Cynllun Corfforaethol eu priodoli i **statws perfformiad cyffredinol o AMBR** sy'n adlewyrchu'r cynnydd cryf a wnaed wrth gyflwyno ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2017/18. Cyflawnodd y pedwerydd Canlyniad Llesiant (Bro Weithredol ac iach) statws **GWYRDD**. Gwnaethom gynydd rhagorol wrth gefnogi gwasanaethau'r Cyngor wrth weithredu ei Hamcanion Llesiant (Gwella) ac adlewyrchir hyn yn y perfformiad Gwyrdd a briodolwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

Rydym wedi cyflawni mwyafrif y gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 ond rydym yn cydnabod bod cyfnod heriol o'n blaenau. Mae adnoddau'n lleihau ond mae galw ar wasanaethau yn parhau i godi a pharheir i deimlo effaith caledi. Mae'r llwyddiant a gyflawnwyd hyd yn hyn yn cynrychioli dechrau'r hyn a fydd yn rhaglen hir o fentrau a anelir at weledigaeth hirdymor y Cyngor – adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair.

Ein cyfraniad at y nodau Lles cenedlaethol

Cafodd ein Cynllun Corfforaethol ei strwythuro o gwmpas Deddf Llesiant y Cenedlaethau i Ddod (Cymru) 2015 ac mae'n seiliedig ar bedwar Canlyniad Lles ac wyth Amcan Lles. Mae hyn yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer y Cynllun Corfforaethol y gellir ei alinio mewn ffordd trawstoriadol i saith Nod Lles y Ddeddf. Mae ein Hamcanion Lles yn adlewyrchu beth mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni ac yn mynd i'r afael â materion uniongyrchol yn ogystal â chael buddion tymor hwy. Wrth gyflawni'r amcanion hyn rydym yn **cyfrannu at y saith Nod Lles** ac yn sicrhau bod anghenion dinasyddion y Fro o bob oedran a chenedlaethau'r dyfodol ar y blaen o ran darparu gwasanaethau.




Yn gyffredinol, **gwnaed cynnydd cryf yn ystod dwy flynedd gyntaf cyflawni ein Cynllun Corfforaethol**, sydd trwy hynny yn cyfrannu'n gadarnhaol at nodau Lles cenedlaethol yng Nghymru. Fodd bynnag mae gyda ni ddwy flynedd o hyd yn weddill yn y Cynllun ac rydym yn parhau i gyflawni ein blaenoriaethau hirdymor sydd wedi'u hanelu at adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair.

Sut gwnaeth ein perfformiad yn erbyn awdurdodau lleol yng Nghymru?

Bob blwyddyn, mae'r Uned Data Llywodraeth Leol (nawr yn Ddata Cymru) yn cyhoeddi perfformiad Awdurdodau Lleol ar ystod o wasanaethau sy'n ei wneud yn bosibl cymharu perfformiad 22 o awdurdodau lleol Cymru ar draws y gwasanaethau hynny. Mae'r ymarfer meincnodi hwn yn cadarnhau ein bod yn parhau i fod yr **awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru am y bedwaredd blwyddyn yn olynol**.

Ar hyn o bryd, mae 10 allan o 20 o ddangysoddion (50%) yn y chwarter uchaf o berfformwyr yng Nghymru. Roedd y rhain mewn meysydd megis atal digartefedd, safonau glanweithdra priffyrdd, ein hymateb i ddigwyddiadau o dipio anghyfreithlon, cyfranogi mewn gweithgareddau hamdden, cyrhaeddiad disgyblion ar lefel TGAU, pobl ifanc y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a chyflymder pennu ceisiadau cyhoeddi. Yn gyffredinol, perfformiodd y Fro yn well na chyfartaledd Cymru ym mhob un ond 2 ddangosydd (90%). O'i gymharu yn erbyn awdurdodau lleol De Ddwyrain Cymru, perfformiodd 67% (12) o'n mesurau hefyd yn well na chyfartaledd y grŵp teulu hwn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gellir gwneud gwelliannau i'r meysydd hynny lle rydym yn perfformio yn y chwarterau is i waelod o'u cymharu â gweddill Cymru. Mae'r meysydd hyn yn perthyn i gyflwr ein ffyrdd a chyfranogi mewn ailgylchu gwastraff.


Crynodeb o berfformiad 2017/18



Dangosyddion fesul Chwarter rhwng 2016/17 a 2017/18



Ein Cyllideb



Ein cyllideb refeniw flynyddol ar gyfer 2017/18 oedd £215.72 miliwn. Mae hyn yn cynnwys 56% Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Cymru, 22% y Dreth Gyngor, 11% ffioedd a thaliadau a'n rhan o'r gronfa Trethau Annomestig (11%).

Ar ddiwedd y flwyddyn, adroddodd y Cyngor **y byddai mewn sefyllfa o ddod allan yn gyfartal ar gyfer ei gyllideb refeniw**. Gwariom £215.72m ar darparu gwasanaethau'r cyngor rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Gyda phoblogaeth o 128,891, mae hyn tua £1,673.66 y person. Cyfrifodd Dysgu a Sgiliau a Gofal Cymdeithasol am 73.5% o wariant y Cyngor a gyllidebwyd yn 2017/18.

Mae gennym hanes rhagorol dros flynyddoedd lawer o dod â chyfanswm y gwariant ar y gyllideb neu'n is, ac o ganlyniadm, rydym wedi llwyddo i ddefnyddio hyblygrwydd balansau i helpu i gynnal codiadau isel yn y Dreth Gyngor o'i gymharu â gweddill Cymru, gwella gwasanaethau a darparu cyllid ychwanegol gwerthfawr i'r rhaglen gyfalaf yn ôl yr angen. Fodd bynnag, fel yr amlygir y neid Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn hinsawdd presennol y cyllidebau sy'n lleihau, mae angen gwneud penderfyniadau anodd mewn perthynas â darparu gwasanaethau fel y gellir gadw gwariant o fewn yr adnoddau. Er y caiff ymagweddau amgen eu hystyried er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau â gwerth ar gyfer y dyfodol fel rhan o raglen drawsnewidiol y Cyngor (Ailffurfio gwasanaethau), erys yn gynyddol heriol i ddiogelu darparu parhaus ar yr holl wasanaethau â gwerth, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod y Fro yn parhau yn un o'r cynghorir a ariennir isaf yng Nghymru.

Beth ddywedodd ein Harchwilwyr amdanom

Daeth ein Hadroddiad Gwella Blynyddol 2017/18 gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad, yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn **bodloni ei ofynion mewn perthynas â gwelliant parhaus**. Amlygodd hefyd fod y Cyngor: yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau sy'n perthyn i adrodd ariannol a defnydd adnoddau; yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran gwella ac adrodd; ac mae ganddo drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Hefyd gwnaed nifer o gynigion er mwyn gwella, yn canolbwyntio'n benodol ar gryfhau trefniadau craffu o fewn y Cyngor er mwyn ein galluogi i ymateb i heriau yn y dyfodol a chael mwy o effaith. Mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r cynigion hyn.




Mae gan ddinasyddion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da ac maen nhw'n teimlo'n rhan o'r gymuned leol

Amcan Gwella 1: Lleihau tldi ac amddifadedd cymdeithasol

Mae mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth allweddol i'n Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Drwy weithio tuag at yr amcan hwn gallwn sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhan o'r gymuned leol.

Amcan Gwella 2: Darparu tai addas a chymunedau diogel

Mae cartref addas a theimlo'n ddiogel yn y gymuned yn rhan allweddol o ymdeimlad pobl o lesiant. Caiff gwaith ei wneud i wella mynediad i dai o ansawdd yn ogystal â hyrwyddo diogelwch cymunedol. Drwy gadw ein stoc tai, bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod gan breswylwyr fynediad i gartrefi o ansawdd.



Mae ein statws perfformiad cyffredinol ar gyfer 'Bro Gynhwysol a Diogel' yw AMBR

Ein cyflawniadau yn ystod 2017/18



- Yn unol â'n Strategaeth Ddigidol, rydym wedi parhau i wella sgiliau digidol trigolion trwy'r fenter 'Cael y Fro Ar-lein' sydd wedi'i hen sefydlu gyda sesiynau galw heibio rheolaidd yn cael eu cynnal ledled dy Fro. Derbyniodd 167 o ddysgwyr 860 awr o hyfforddiant a chymerom 14 o Hyrwyddwyr Digidol ymlaen fel gwirfoddolwyr. Dywedodd 100% o ddysgwyr eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur a sgoriodd y fenter fel 'da' neu 'ragorol'.



- Mae diogelu'r rhai sy'n agored i niwed yn thema ganolog i'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw gan y Gwasanaeth Rheoleiddiol a Rennir (SRS). Yn ystod y flwyddyn, ymdriniwyd â 542 o achosion, ymholiadau ac atgyfeiriadau gan y Tîm Diogelu SRS. Cyrhaeddwyd 763 o bobl drwy addysg a gweithgareddau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth mewn perthynas â sgams a throseddau carreg drws a chefnogwyd 80 o ddiodefwyr trosedd carreg y drws a sgamiau. Yn ogystal, gosodwyd 24 teclyn blocio galwadau a gwneud 6 o ymatebion cyflym i drigolion pryderus neu wedi'u dychryn lle yr oedd masnachwyr yn bresennol yn eu cartrefi neu ar fin dychwelyd.



- Buom yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â Chredyd Uniongyrchol (UC), gan lwyddo i sicrhau £188,211 ar gyfer ein tenantiaid drwy fudd-daliadau ychwanegol, biliau llai a grantiau. Derbyniodd 100% o bob tenant y Cyngor (gan gynnwys tenantiaid Credyd Cynhwysol) gymorth ar ffurf cyngor ar arian a arweiniodd at gyfradd cadw tenantiaethau o 97%, a gyfrannodd i atal digartrefedd yn ystod y flwyddyn.
- Bu camau atal cadarnhaol a gymerwyd gennym ni yn llwyddiannus wrth atal digartrefedd mewn 72% o achosion cartrefi o'u cymharu â 69% yn 2016/17. Cafodd y llwyddiant hwn ei gynorthwyo gan y gwasanaethau cymorth ychwanegol megis Gwalia a Gofal a gyflwynwyd gan Shelter Cymru yn ystod y flwyddyn.
- Buom yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cynllun Help U Dŵr Cymru ar gyfer aelwydydd incwm isel. Cafodd 487 o geisiadau eu cefnogi a roddodd hawl i denantiaid gael ad-daliad, cliriodd balansau dyledus neu gynhyrchu credyd a gafodd ei ad-dalu i'r tenantiaid. Mae'r gefnogaeth wedi helpu tenantiaid i gynnal a chadw eu tenantiaid i mewn i'r dyfodol.



- Mae gorffen a chael cydymffurfiaeth yn llwyddiannus gyda Safonau Ansawdd Tai Cymru wedi sicrhau bod ein 3,876 o gartrefi o safon da ac yn addas ar gyfer anghenion trigolion presennol ac yn y dyfodol.
- Gwnaethom lleihau'r amser a gymerir i osod eiddo gwag o 28 diwrnod yn 2016/17 i 19 diwrnod yn 2017/18. Mae'r gwelliant hwn o ran gweithdroad wedi caniatáu i denantiaid symud i mewn i'w cartrefi newydd yn gyflym. Mae'r perfformiad hwn yn y chwarter uchaf o sefydliadau Tai ar draws Cymru a Lloegr.
- Gwnaethom ddarparu 225 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol ar gyfer aelwydydd mewn angen. Roedd hyn yn cynnwys project llety â chymorth dwy uned mewn partneriaeth â Gwasanaethau Plant fel rhan o'n hymrwymiad i 'ddarparu llety a gwasanaethau priodol i grwpiau penodol sy'n agored i niwed'. Bydd y cyfleuster hwn yn darparu tai dros dro gyda lefelau cymorth uchel i'r rhai sy'n gadael gofal sy'n agored i niwed ac sydd ag anghenion cymhleth iawn na ellid eu bodloni mewn cynllun tai â chymorth traddodiadol.
- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi £9,553,247 i Ardal Adnewyddu Castleland dros y 7 mlynedd diwethaf, wedi'i anelu at wrthdroi dirywiad tref Y Barri a'r ardal breswyl o'i hamgylch. Mae'r cynllun, a ddaeth i ben eleni, wedi uwchraddio 1,225 eiddo, wedi gwneud gwelliannau i Ysgol Gynradd Heol Holltwn a Heol Holltwn ac wedi buddsoddi £2.5 miliwn mewn 487 o gartrefi i wella effeithlonrwydd ynni.
- Mae ein menter Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sydd wedi'u rheoli'n dda i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Adroddodd 98% o ddefnyddwyr gwasanaethau eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir, gwelliant pellach o 97% o foddhad y llynedd. Yn ystod 2017/18, cyflawnodd 233 o blant allan o 274 (85% y deilliannau a ddisgwyliwyd (Deilliant 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gan ragori ar y targed o 60% a osodwyd ar gyfer y flwyddyn.



Ein heriau tua'r dyfodol



- Rydym yn cydnabod bod angen i fwy gael ei wneud i hyrwyddo cynhwysiad digidol ar draws grwpiau a dargedir a rhagwelir rhagor o gynnydd yn ystod 2018/19, yn dilyn y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Ddigidol newydd.
- Er bod Llywodraeth y DU wedi gwarantu'r holl gyllid ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig tan 2020, erys ansicrwydd ynglŷn â lefelau'r cyllid ar ôl 2020. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith ar wydnwch Cymunedau Gwledig Creadigol yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae dyraniadau unrhyw gyllid adnewyddu yn y dyfodol ar gyfer Datblygu Economaidd neu gyllid gwledig yn parhau'n aneglur a chânt eu dylanwadu'n helaeth gan Bolisi San Steffan.
- Daeth y gronfa digartrefedd dros dro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i ben ym mis Mawrth 2018. Fodd bynnag, mae rhai swyddi o fewn Gwasanaeth Atebion Tai ac Opsiynau Caerdydd yn parhau i gael eu hariannu trwy'r arian hwn. Cafodd hyn ei amlygu fel pwysau cost ar gyfer 2018/19 ar gyfer cyllid ychwanegol er mwyn cynnal y lefel ofynnol o atal digartrefedd yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014.
- Wedi adnabod y gallai ein rheolau ar hyn o bryd ar gyfer rheoli cydymffurfiaeth adeiladu, ac yn benodol, 'data cydymffurfio' ar gyfer ein stoc Adeiladu Corfforaethol gael ei wella, rydym wedi ymateb yn gadarnhaol trwy ailstrwythuro'r Tîm Cydymffurfiaeth Gorfforaethol er mwyn galluogi rheoli data cydymffurfio yn well, ynghyd ag adnoddau priodol er mwyn sicrhau cronfa ddata gywir a chyfredol ar gyfer adeiladau cyhoeddus. Wrth fynd ymlaen, bydd y costau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael ag unrhyw faterion o anghydfurfio mewn perthynas ag asedau adeiladau'r Cyngor yn her, o ystyried cyllidebau sy'n mynd yn llai. Bydd rhaid i hyn gael ei ystyried fel rhan o'r broses gosod cyllideb yn ddiweddarach yn 2018/19.




Mae gan Fro Morgannwg economi gref a chynaliadwy ac mae'r amgylchedd lleol wedi ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

Amcan Gwella 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth

Parhau i wella ar ein record lwyddiannus o ddarparu projectau adfywio ledled y Fro tra'n cydweithio â'n partneriaid fel rhan o Ddinas-Ranbarth Caerdydd i wneud y gorau o'r cyfleoedd i greu swyddi.

Amcan Gwella 4: Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd unigryw ac am ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol tra'n mwynhau ei harddwch a'i amrywiaeth. Mae mabwysiadu ymagwedd fwy cynaliadwy at ddatblygu yn ein galluogi i wneud y gorau o ddefnydd tir at ddibenion tai, cyflogaeth, masnach, twristiaeth, trafndiaeth, mwynau, gwastraff a'r gymuned heddiw ac i'r dyfodol ill dau.



Ein statws RAG cyffredinol ar gyfer 'Bro Amgylcheddol Gyfrifol a Ffyniannus' yw AMBR

Ein cyflawniadau yn ystod 2017/18



- Mae'r Fro yn parhau i ffynnu fel cyrchfan i fynd iddo drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom nifer o ddigwyddiadau i gefnogi busnesau lleol ac annog twristiaeth gan gynnwys Llwybr Celfyddydau Penarth, yr Ŵyl Grefftau Arfordirol, Syrcas y Môr, Aquathlon Ynys y Barri a Marchnad Nadolig Heol Holltwn. Mae mentrau eraill yn cynnwys gwerysyla a gweithgareddau awyr agored yn ein Parciau Gwledig. Amlygodd yr arolwg STEAM (2017) fod niferoedd ymwelwyr â'r Fro wedi cynyddu o 3.97 miliwn yn 2016 i 4.16 miliwn yn 2017, gan ddod â £236.81 miliwn mewn refeniw i'r ardal.



- Dangosodd y rhan fwyaf o ymwelwyr i Fro Morgannwg eu bod yn debygol o ddychwelyd yn y dyfodol (95%) a dywedodd 90% y byddent yn bendant yn ymweld eto (sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan sef 86%), yn ôl Arolwg Ymwelwyr Cymru (2017).

- Byddai 96% o ymwelwyr yn dychwelyd i gyrchfan Ynys y Barri a byddai 91% yn argymhell y cyrchfan fel lle i fynd iddo i'w ffrindiau a'u teulu (Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid, Haf 2017)



- Fel rhan o'r Fargen Ddinesig/ Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) rydym wedi cytuno ar fuddsoddiad o £379 miliwn er mwyn cefnogi datblygu clwstwr cyfansawdd o'r diwydiant lled-ddargludo yn ne-ddwyrain Cymru. Mae hefyd wedi sicrhau cefnogaeth mewn egwyddor i ailddatblygu (gwerth £180 miliwn) prif hyb trafndiaeth Caerdydd gyda £40 miliwn o gyllid y Fargen Ddinesig. Disgwylir i'r buddsoddiadau hyn, ynghyd â nifer o brojectau allweddol eraill ddod â buddsoddiad sylweddol o'r sector preifat dros y pum mlynedd nesaf a chreu miloedd o swyddi technoleg uchel o fewn y rhanbarth, ac felly'n gwneud y mwyaf o dwf economaidd yn yr ardal.



- Mae hyrwyddo rhagweithiol Parc Awyrfod Sain Tathan o dan y Fargen Ddinesig eisoes wedi creu 100 o swyddi a rhagwelir y bydd 650 o gyfleoedd pan fydd yn hollol weithredol yn 2019.



- Sicrhodd y Cyngor £8,109,968 o gyllid ar gyfer ei fuddsoddi yn y gymuned trwy gytundebau Adran 106 sydd ynghlwm â chymeradwyaethau cynllunio yn ystod 2017/18. Mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu lleoedd ysgol ychwanegol, cysylltiadau trafndiaeth newydd, palmentydd a llwybrau beicio gwell, cynlluniau celfyddydol cyhoeddus, uwchraddio parciau a manau chwarae plant, a chyfleoedd ar gyfer hyfforddi a datblygu.



- Gwnaethom ragori ar ein targed statudol am leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu. Cafodd dros 63% o'n gwastraff ei ailgylchu yn erbyn targed statudol o 58%. Mae mentrau megis Prosiect Gwyrdd a'r Safle Trosglwyddo Gwastraff wedi cyfrannu at y perfformiad hwn ac wedi galluogi rhagor o fuddsoddi mewn mentrau lleihau gwastraff.

- Mae safonau glanweithdra ein prifffyrdd (99.5%) a'n strydoedd (71%) yn parhau yn uchel a buom yn rhagweithiol wrth ymdrin â 100% o ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt o dipio anghyfreithlon sy'n ein rhoi ni'n gyntaf yng Nghymru yn y meysydd hyn.

- I gydnabod ein parciau a'n manau gwyrdd o ansawdd da, llwyddom i gadw ein 7 dyfarniad Baner Werdd a chyflawnom 8 dyfarniad Cymunedol Baner Werdd arall yn ystod y flwyddyn. Cyflawnodd 6 o'n traethau ddyfarniadau sy'n gwarantu amgylchedd glân, diogel, deniadol, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda i ymwelwyr.

- Bodlonodd y Cyngor yr ymrwymadau ar gyfer y flwyddyn o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad i Leihau Carbon (CRC) ac mae wedi cofrestru gyda ReFit (rhaglen effeithlonrwydd ynni) a fydd yn lleihau allyriadau carbon ymhellach o'n gweithgareddau.

- Cafodd ein Mapiau Teithio Llesol eu diweddarau yn dilyn ymgynghori cyhoeddus ac mae hyn yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i drigolion i deithio'n effeithlon ac yn ddiogel ledled y Fro. Gwariwyd £467,018 yn ystod 2017/18 ar welliannau i deithio llesol a chynlluniau teithio cynaliadwy gan ddefnyddio cyfraniadau Adran 106. Mae'r rhain yn cynnwys: y cynllun beicio ym Mharc Cosmeston i gysylltu Dinas Powys â Phenarth; gwelliannau rheoli traffig High Street/Broad Street a throedffordd yn Y Barri; Cynllun Llwybr Beicio ar Faes Parcio Harbour Road; gwelliannau i'r llwybrau troed yn Y Bontfaen; a darparu stondinau beiciau ysgol ar gyfer Ysgol Gynradd Llandochau.

- Mae'r cynllun Greenlinks wedi parhau i gynnig gwasanaeth y mae angen taer amdano i ddinasyddion y Fro nad ydynt fel arall yn gallu cael mynediad at dtrafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol, yn dilyn llwyddiant y project pilot diweddar i gludo gofalwyr ifanc.

- Gwnaethom weithredu rhaglen gynhwysfawr o adfywio ledled y Fro trwy'r Strategaeth Datblygu Lleol Gwledig (a gomisiynodd 29 project yn ystod y flwyddyn) a'r Fframwaith Canol Trefi. Mae'r rhain wedi mynd ati i gynnwys trigolion wrth ddatblygu a chyflawni gwelliannau cymunedol gan gynnwys digwyddiadau, gwelliannau amgylcheddol a sefydlu Ardal Gwella Busnes, y maent i gyd wedi'u hanelu at adnewyddu ein trefi er mwyn sicrhau ein bod yn parhau'n ddeniadol ac yn hyfyw.

Ein heriau tua'r dyfodol



- Mae colli cyllid allanol yn aros yn her allweddol, yn enwedig ar ôl 2020. Mae'n rhaid i ni liniaru yn erbyn yr ansicrwydd parhaus sy'n deillio o Brydain yn gadael yr Undeb Ewropeidd trwy sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni projectau adfywio allweddol ar gyfer y gymuned leol.
- Er bod cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â Phrifddinas-Rhanbarth Caerdydd (Y Fargen Ddinesig), yn gadarnhaol mae angen i ni sicrhau, wrth fynd ymlaen, bod buddion Bro Morgannwg yn parhau i gael eu hyrwyddo'n effeithiol. Yn arbennig o berthnasol mae'r angen i hyrwyddo'r Maes Awyr a Sain Tathan fel canolfannau twf economaidd a chreu swyddi, gwella mynediad strategol at y Fro, cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac adfywio'r Barri â chymhorthdal yn barhaus
- Mae System Gynllunio Cymru yn mynd trwy newid digynsail fel canlyniad i gyflwyno tri phrif darn o ddeddfwriaeth; mae hyn yn dod ar adeg o leihau cyllidebau.
- Mae ein rhwydwaith ffyrdd yn ased sy'n dirywio ac sydd angen buddsoddiad parhaus a sylweddol dros £2 miliwn y flwyddyn er mwyn cynnal a chadw safon diogel. Mae hyn yn parhau fel her, o ystyried y buddsoddiad cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer cynnal a chadw.




Holl ddinasyddion Bro Morgannwg yn cael cyfleoedd i gyflawni eu llawn botensial

Amcan Gwella 5: Codi safonau llwyddiant yn gyffredinol

Ein huchelgais yw sicrhau bod canlyniadau addysg y gorau yng Nghymru a'u bod nhw gystal â rhai awdurdodau mwyaf llwyddiannus Lloegr lle mae'r proffiliau cymdeithasol-economaidd yn debyg.

Amcan Gwella 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth

Rydym yn parhau ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn ein cymunedau ac yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo cyfle cyfartal a'r Gymraeg. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd annog pobl o bob oedran i fwynhau ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw.



Ein statws RAG cyffredinol ar gyfer 'Bro Llawn Dyhead a Diwylliannol Fywiog' yw AMBR

Ein cyflawniadau yn ystod 2017/18



- O dan y Rhaglenni Ad-drefnu a Buddsoddi mewn Ysgolion ac Ysgolion y 21ain Ganrif, rydym wedi llwyddo i gyflawni nifer o gynlluniau eleni. Er enghraifft, mae Cymuned Dysgu Llanilltud wedi mynd i'r afael â'r capasiti dros ben yn Ysgol Llanilltud Fawr ac rydym wedi agor uned feithrin newydd yn Ysgol Gynradd Fairfield.



- Mae canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) wedi parhau i leihau am y 10fed blwyddyn yn olynol i 0.95% sy'n golygu mai ni yw'r trydydd yng Nghymru o ran ein perfformiad. Yn yr un ffordd mae ein perfformiad mewn perthynas â chanran y disgyblion blwyddyn 12 sy'n gadael yr ysgol ac yn NEET hefyd wedi gostwng i 0.65%.



- Nid oes unrhyw ysgol yn y categori dilyn i fyny statudol (Gwelliant Sylweddol neu Fesurau Arbennig) ac mae un ysgol yn unig yn parhau yng nghategori dilyn i fyny Estyn sef Adolygiad Estyn.



- Mae'r Cyngor ei hun hefyd wedi cymryd camau uniongyrchol wrth greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc drwy gynllun prentisiaeth a mentrau a ariennir yn lleol. Yn ystod 2017/18 bu ein project Ysbrydoli i Weithio yn gweithio gyda 55 o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Aeth 15 o'r rhain i mewn i gyflogaeth a chyflawnodd 17 gymwysterau cydnabyddedig.



- Ni yw un o berfformwyr y chwarter uchaf yng Nghymru o ran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Bu ein llwyddiant yn ganlyniad i gydweithio'n effeithiol gydag ysgolion.



- Mae safonau yn ystod blwyddyn academiaidd 2016/17 wedi gwella ym mwyafrif y dangosyddion perfformiad allweddol ac mewn bron pob achos bu'r gyfradd gwelliant yn fwy yn y Fro nag yng nghyfarledd Cymru.



- Gwelodd adolygiad Coleg Caerdydd a'r Fro o Ganolfan Ddysgu'r Fro ei bod yn cynnig 'darpariaeth dda gyda rhagolygon da am wella ar gyfer pob preswlydd ac mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr sy'n oedolion yn parhau'n uchel, sef 94%.



- Nid yw unrhyw ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol wedi gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy. Mae'r perfformiad hwn yn ein rhoi ni yn chwarter uchaf awdurdodau lleol Cymru.



- Gwnaethom wella a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer yr iaith Gymraeg ymhellach ledled y Fro. Yn ystod 2017/18, cymerodd 19,500 o bobl ran mewn ystod o weithgareddau yn yr iaith Gymraeg trwy'r bartneriaeth hyrwyddol sydd gennym gyda Menter Bro Morgannwg. Rydym yn parhau i hyrwyddo dosbarthiadau iaith Gymraeg yn y gweithle ac yn ystod 2017/18 ymrestrodd 80 aelod o staff ar gwrs iaith Gymraeg.

- Mae'r Cyngor yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac mae'n parhau i ymrwmo i sicrhau bod ganddo weithle cynhwysol ar gyfer pob aelod o staff sy'n lesbiad, yn hoyw, yn ddeurywiol ac yn drawsryweddol. Gwnaed cynnydd da wrth weithredu'r cynllun gweithredu mewn ymateb i'n hasesiad.
- Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi gweithredu'r System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru-gyfan, sy'n hyrwyddo rhannu adnoddau a chasgliadau ac yn galluogi cwsmeriaid i rannu casgliadau llyfrgelloedd (yn ddwyieithog) ledled Cymru. Mae hyn yn rhoi mynediad at ystod eang o adnoddau ar gyfer dysgu, addysgu ac ymchwil.

Ein heriau tua'r dyfodol



- Mae codi lefelau cyrhaeddiad yn erbyn lleihad cenedlaethol mewn cyllid a chynnydd o ran niferoedd y disgyblion sy'n mynychu ysgolion y Fro yn rhoi heriau sylweddol ar gyfer y dyfodol. Cyfanswm gwariant gros ysgolion y Cyngor a gyllidebwyd ar gyfer pob disgybl ar gyfer 2017/18 oedd £5,022, sef yr isaf yng Nghymru ac yn £606 yn is na chyfarledd Cymru sef £5,628.
- Mae lleihau'r bwch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn parhau'n her.
- Mae niferoedd cynyddol o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol/problemau cymhleth yn parhau i roi pwysau ychwanegol ar adnoddau addysg canolog ac ar gyllidebau ysgolion unigol ar adeg pan fo'r A
- Mae nifer y bobl ifanc sy'n NEET wedi lleihau'n gyson dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae'n parhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor gyda ffofws arbennig ar NEETS Blwyddyn 13 sy'n 2.85% ar hyn o bryd.
- Bydd lansiô'r Strategaeth Gymraeg ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Strategaeth Addysg Cymru yn cael effaith sylweddol ar Raglen Ysgolion y 21 ain ganrif, yn ogystal â goblygiadau ariannol o ran cyflawni cymorth arbenigol neu drawsnewidiol priodol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Er bod cynnydd wedi'i wneud parthed pobl yn ymgymryd â dysgu cymunedol oedolion, mae perygl na fydd y cyfleoedd hyn yn gynaliadwy o dan gyllid llai.
- Bydd cynnal niferoedd ymwelwyr yn parhau i fod yn her barhaus, oherwydd y gostyngodd niferoedd ymwelwyr gan 5% yn 2017/18. Mae'r Cyngor wedi lansio ei gynllun mynediad allan o oriau, sef Open+, yn Y Barri, a disgwylir iddo gynyddu nifer y bobl a ddaw.




Mae trigolion Bro Morgannwg yn arwain bywydau iach ac mae pobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi.

Amcan Gwella 7: Annog a hyrwyddo bywydau actif ac iach

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn greiddiol i wella llesiant pobl a hyrwyddo iechyd da. Mae angen mwy o bwyslais hefyd ar annog cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol i gefnogi patrymau bywyd iach a gwella ansawdd bywyd..

Amcan Gwella 8: Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac amddiffyn ein hamgylchedd

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a diogelu ein trigolion mwyaf agored i niwed. Trwy weithio gyda phartneriaid gallwn ddod ynghyd a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n rhoi anghenion y cwsmer flaenaf ac sy'n gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i lesiant ein trigolion mwyaf agored i niwed, eu teuluoedd a'u gofalwyr.



Ein statws RAG gyffredinol ar gyfer 'Bro Gweithgar ac Iach' yw GWYRDD

Ein cyflawniadau yn ystod 2017/18



- Y Fro oedd yr awdurdod a berfformiodd orau yng Nghymru o ran ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol, gyda 11,368 o ymweliadau fesul 1,000 o boblogaeth.
- Cynyddodd cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol ac ni yw'r ail orau yng Nghymru ar gyfer cyfranogiad gweithgar gyda 69% o oedolion yn dangos eu bod yn cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.
- Arweiniodd mwy o gyfleoedd i bobl anabl gyfranogi mewn gweithgareddau corfforol at Wobr Efydd ar gyfer InSport gan Chwaraeon Anabled Cymru, sef y wobwr uchaf oedd ar gael ar y pryd.
- Mynychodd 546 o aelodau anabl y clwb a 618 o aelodau sesiynau chwaraeon i bobl anabl 50 o gyfleoedd cynhwysol neu'n benodol i bobl anabl ledled y Fro.
- Cadwodd y Cyngor 7 Baner Werdd i gydnabod eu parciau a'n manau gwyrdd rhagorol. Hefyd dyfarnwyd 8 Gwobr Gymunedol y Faner Werdd yn ystod y flwyddyn, sef 3 yn fwy na'r llynedd.
- Dyfarnwyd 3 Baner Las ar gyfer ein traethau 'safon aur' yn Whitmore Bay, Southerndown a Marina Penarth, yr unig Marina yng Nghymru i dderbyn dyfarniad o'r fath. Hefyd derbyniodd Cold Knap wobwr glan y môr.
- Mae llwyddo lansio'r cynllun peilot 'Eich Dewis Chi', sy'n system Rheoli a Mesur Achosion sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau wedi rhoi rhyddid i ddefnyddwyr gwasanaethau i ddiffinio eu hanghenion a'i canlyniadau gofal.
- Gwnaethom gyd-leoli'r Tîm Awtistiaeth Integredig yn Hafan Dawel Mae'r tîm amlddisgyblaeth wedi rhoi mynediad at ddefnyddwyr gwasanaethau at ystod ehangach o wasanaethau cymorth i fodloni eu hanghenion.




- Gwnaethom lwyddo i lansio Porth Gwybodaeth DEWIS Cymru; adnodd ar-lein ar gyfer cael mynediad at wybodaeth am les ledled Cymru.
- Cafodd 69.5% o ymholiadau o ran gofal cymdeithasol gwasanaethau i oedolion eu datrys yn y pwynt cyswllt unigol (trwy'r Ganolfan Gyswllt).
- Trwy fabwysiadu ymagwedd fwy targedig, cafodd 75.03% o blant eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teuluoedd yn ystod 2017/18.
- Datblygom a gweithredom, gyda phartneriaid allweddol, Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac offeryn Fframwaith Asesiad o'r Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol sydd bellach wedi'i fewnosod ledled Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Amcangyfrifir y cyrhaeddodd ein tîm Datblygu Chwarae 2,000 o deuluoedd ar draws ein rhaglen digwyddiadau. Gweithredwyd dau gynllun chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol a chafodd 158 o blant fynediad atynt, a chyrrhaeddodd 2 gynllun chwarae ar gyfer plant anabl 236 o blant a phobl ifanc yn Ysgol y Deri.
- Llwyddodd y Cyngor i adleoli gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn i Ysbyty Llandochau sydd hefyd wedi'n galluogi i gyd-leoli ein Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol i bobl hŷn gyda gwasanaethau iechyd meddwl gan sicrhau y gall pob cael y math cywir o wasanaethau ar yr adeg cywir.
- Cwblhaodd 75.86% o ddefnyddwyr gwasanaethau a oedd ei hangen raglen o driniaeth, sy'n rhagori ar y cyfartaledd cenedlaethol sef 72.
- Adroddodd 79% o gleientiaid am welliant yn safon eu bywydau.

Ein heriau tua'r dyfodol



- Cynnal a gwella lefelau cyfranogi mewn gweithgareddau corfforol ar adeg o adnoddau sy'n lleihau a'r posibilrwydd o ranbartholi cyllid e.e. Datblygu Chwaraeon.
- Cydbwyso'r angen i ddarparu rhaglen chwarae uchelgeisiol yn unol â deddfwriaeth ar adeg pan mae cyllid yn lleihau.
- Capasiti a gallu i ateb y galw cynyddol am Wasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau y gellir bodloni anghenion. Mae nifer gynyddol o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ac oedolion yn ymddangos gydag anghenion mwy cymhleth sy'n rhoi mwy o bwysau ar ein gwasanaethau, ac yn arwain at ymyriadau/cymorth drutach.
- Er ein bod yn parhau i berfformio'n gadarn mewn perthynas â Trosglwyddo Gofal wedi'i Oedi (DToc) (rhyddhau o'r ysbyty), mae'r anallu i leihau oedi trosglwyddo gofal ymhellach trwy ein gwasanaeth Atebion Llety oherwydd cyfyngiadau ariannol yn parhau'n her.
- Er gwaethaf ein hymagwedd flaengar ar weithio gyda phartneriaid, gall mentrau cydweithredol fod yn araf yn enwedig mewn perthynas â modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaeth lle y mae gwasanaethu'n cynyddu yn dibynnu ar gyllid grant i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau arloesol. Mae unrhyw oedi ar y lefel ranbarthol yn effeithio ar ein cynnydd o ran integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal iechyd i oedolion.



Cynllunio Integredig yw'r factor allweddol wrth sicrhau llwyddiant...

..... mae'n ein galluogi i gyflawni Blaenoriaethau Ein cynllun Corfforaethol a'n Amcanion Gwella (Amcanion Llesiant) tra'n cyfrannu at ateb y Nodau Llesiant a'r pum dull o weithio. Mae'n golygu mabwysiadu dull integredig o reoli risg, rheoli arian, cynllunio gweithlu, rheoli perfformiad a rheoli gwybodaeth.

Ein dull o weithio.....

Mae pob agwedd ar yr hyn a wnawn wedi ei seilio ar ein pum dull o weithio.

● INTEGREIDDIO

● CYDWEITHIO

● CYFRANOGIAD

● ATAL

● TYMOR HIR

Ein statws RAG cyffredinol ar gyfer 'Iechyd Corfforaethol' yw GWYRDD

Ein cyflawniadau yn ystod 2017/18



- Cynhaliom weithlu medrus a gwydn iawn trwy gyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Rheoli, rydym wedi diwygio'r pecyn ymsefydlu 'Croeso i'r Fro' wedi datblygu modiwlau hyfforddi ar-lein, cynllun cydnabod staff a digwyddiad gwobrwyo blynyddol. Mae gweithgareddau o'r fath wedi helpu i gyfrannu at sgôr cadarnhaol o 72% yn ein harolwg staff diweddar.

- Mae trosiant staff wedi parhau i leihau o 10.4% yn 2016/17 i 8.88% yn 2017/18 ac mae lefelau trosiant gwirfoddol hefyd wedi lleihau ym mwyafrif y gwasanaethau.

- Gwnaethom wella canlyniadau i'n dinasyddion yn y Fro trwy gyflawni ein rhaglen Cyfalaf. Gwariodd y Cyngor 86% o'i gyllideb cyfalaf o £51.432 ar wella'r amgylchedd dysgu mewn ysgolion, cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru fel rhan o'r rhaglen gwella tai, gwelliannau i'r seilwaith priffyrdd ac adfywio ardaloedd megis wardiau Gibbonsdown a Buttrills.

- Cyflawnwyd £2.998miliwn o arbedion (sy'n cynrychioli 75% o'r targed gofynnol o £4.017miliwn a osodwyd ar gyfer y flwyddyn), heb niweidio cyflawni gwasanaeth neu foddhad cwsmeriaid.

- Gwnaethom leihau ymhellach maint a chostau llety a ddefnyddir gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy derfynu trefniadau prydes yn Provincial House a chwblhau a gwaredu safle Ysgol St Cyres Dinas Powys. Mae canoli ein gwasanaethau wedi'n galluogi i wneud arbedion ariannol (wrth gyfrannu at dderbyniadau cyfalaf) a darparu gwasanaethau mwy effeithlon a hyblyg.



- Mae datblygu Strategaeth Ddigidol yn disgrifio'r weledigaeth ar gyfer sut y byddwn yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon. Bu ffocws allweddol eleni ar 'Weithlu Digidol'. Mae symleiddio gwasanaethau meddalwedd TGCh fel rhan o'r model Gwasanaethau Cymdogaethau a Thrafnidiaeth newydd wedi ein galluogi i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon a hyblyg i'n trigolion mewn perthynas â gwasanaethau rheoli gwastraff, glanhau a thrafnidiaeth.



- Mae boddhad y cwsmeriaid gyda'n gwasanaethau yn parhau'n uchel. Roedd dros 99% o'r bobl y cysylltom â nhw yn fodlon ar fynediad at wasanaethau ar draws yr holl sianeli. Yn ogystal, cafodd 77% o'r holl ymholiadau i'r Ganolfan Cyswllt (C1V) eu datrys ar y cyswllt cyntaf.



- Gwnaethom atgyfnerthu ein hymagwedd at reoli risg trwy ddatblygu strategaeth a phroses adrodd newydd sy'n edrych ar risg mewn ffordd fwy trawstoriadol. Mae'r mecanwaith newydd yn sicrhau ein bod yn mabwysiadu ymagwedd gadarn at sut rydym yn rheoli ac yn lliniaru ein risgiau i ddarparu gwasanaethu.



- Mae cyhoeddi Cynllun Llesiant Bro Morgannwg 'Ein Bro Ein Dyfodol' yn gosod allan sut y bydd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i wella lles ein dinasyddion ar draws y Fro.

- Trwy gydweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i liniaru effeithiau pwysau cyllidebol ar ddarparu gwasanaethau. Mae ein cydweithrediadau strategol allweddol yn cynnwys Bargaen Ddinesig Prifddinas-Rhanbarth Caerdydd, Ysbrydoli i Gyflawni/Ysbrydoli i Weithio, Cyd-wasanaeth Consortiwm Canolbarth y De, Trin Gwastraff Organig Caerdydd, Partneriaeth Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro, Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd, y Gronfa Gofal Integredig a'r Grŵp Tai Strategol.

Ein heriau tua'r dyfodol



- Mae gennym hanes llwyddiannus o gyflawni cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, bydd yr angen i fod yn effeithlon a gwneud arbedion cyllideb yn dod yn fwyfwy heriol yn y blynyddoedd i ddod. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagamcanu bod gofyn am £20.94m rhwng 2018/19 a 2019/20.

- Er gwaethaf y ffocws a roddir ar reoli salwch staff, mae lefelau absenoldeb wedi codi gan 1.26 ar gyfer pob aelod staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod 2017/18. Ar draws y Cyngor, collwyd 10.14 o ddiwrnodau gwaith ar gyfer pob aelod staff FTE yn ystod 2017/18 o'i gymharu ag 8.88 o ddiwrnodau yn 2016/17. Er bod lefelau trosiant staff wedi gostwng rydym yn ei weld yn heriol o hyd i gadw staff medrus yn y tymor hir ac rydym wedi cyflwyno nifer o fentrau i wella lefelau cadw staff.

- Wrth fynd ymlaen, bydd y costau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael ag unrhyw faterion o anghydfurfio mewn perthynas ag asedau adeiladau'r Cyngor yn her, o ystyried cyllidebau sy'n mynd yn llai.

- Bydd cynigion Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â Diwygio Llywodraeth Leol yn parhau i gael effaith ar wasanaethau'r Cyngor yn benodol wrth adnabod cydweithio hir dymor, buddiol.

- Bydd gweithredu ein Strategaeth Ddigidol yn heriol o ystyried cyflymder y newid technolegol, y costau sy'n gysylltiedig ag ariannu ffurfiau newydd o dechnoleg a'r effaith y mae'r Strategaeth uchelgeisiol hon yn ei chael ar yr angen i uwch-sgilio'r gweithlu.

- Mae rheoli galw a disgywiliadau ar gyfer ein gwasanaethau pan fydd adnoddau'n lleihau yn fwyfwy heriol. Mae angen i'r ffocws fod ar ddefnyddio ein hadnoddau'n effeithiol trwy'r Rhaglen Ffurio.

Sut i gymryd rhan

Gallwch gymryd rhan trwy ymuno â Vale Viewpoint (ein Panel Dinasyddion) a chyfranogi mewn ymgynghoriadau. Llenwch y [ffurflen ar-lein](#) fer. Mae Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd a gallwch gymryd rhan trwy ofyn bod gwasanaeth /mater yn cael ei ystyried trwy lenwi [Cffurflen Ystyried Adolygiadm](#) neu gallwch gofrestru i siarad ar [wefan e.y](#) Cyngor. I wneud sylw ar yr Adroddiad Blynyddol neu i gynnig Amcanion Lles (Gwella), cysylltwch â ni ar: E-bost: improvements@valeofglamorgan.gov.uk Llythyrau: Perfformiad a Datblygu, Bro Morgannwg, Y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 Ffôn: 01446 700111